# Cynnal prosiectau golygu yn unol â chyfarwyddyd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dehongli'r cyfarwyddyd i gyflawni prosiect golygu. Mae hefyd yn ymwneud â deall eich rôl ar bob cynhyrchiad a sut mae'n berthnasol i'r rolau a'r adrannau eraill. Yn ogystal, mae'n ymwneud â deall gofynion technegol eich gwaith.

Mae'r safon hon ar gyfer y rolau canlynol: golygydd, uwch olygydd a golygydd iau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dehongli'r cyfarwyddyd a chadarnhau eich gwaith gofynnol gyda'r bobl berthnasol
2. ymchwilio a chaffael y wybodaeth angenrheidiol i chi allu cyflawni'ch gwaith yn effeithiol
3. cytuno ar amserlen ac amser, gan gadw at y gyllideb, ar gyfer y golygu sy'n cydbwyso anghenion y cleient a'r amser i gynhyrchu gwaith o safon briodol
4. rhoi gwybod am unrhyw faterion yn ymwneud â chynnydd, ansawdd neu ddulliau gwaith sy'n effeithio ar y llif gwaith ac sy'n fodd i eraill ddatrys y problemau
5. rheoli'ch llwyth gwaith eich hun a sicrhau eich bod yn ei gyflawni erbyn y terfynau amser y cytunwyd arnyn nhw
6. gweithio mewn ffordd drefnus fel bod modd i eraill fanteisio ar eich gwaith pan fo'n briodol
7. gweithredu systemau a'r cyfarpar gan ddatrys unrhyw broblemau o ddydd i ddydd a allai godi
8. datrys problemau, egluro'r cyfyngiadau a mynd i'r afael gyda phroblemau'r cyfryngau byddwch yn gweithio gyda nhw
9. ystyried ac awgrymu dewisiadau hyfyw ac amgen i wella'r golygiad
10. gweithredu'n dilyn derbyn adborth gan adnabod sut i wneud y newidiadau gofynnol a derbyn penderfyniadau creadigol pobl eraill
11. darparu manylion ynghylch yr hawlfraint ynghlwm â delweddau neu sain i'r bobl berthnasol pan fo'n briodol
12. hwyluso trafodaeth rhwng gwahanol farnau creadigol er mwyn helpu ffurfio consensws
13. cyflawni'r cynnwys wedi'i olygu'n unol â'r cyfarwyddyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddehongli cyfarwyddyd
2. yr arddulliau golygu ar gyfer gwahanol genres
3. sut i reoli'ch amser i fodloni amserlen y cynhyrchiad
4. eich sefyllfa o ran y llif gwaith yn dilyn y cynhyrchiad a'r effaith ar eraill yn y broses
5. cyfrifoldebau eich rol chi a sut mae eich gwaith yn berthnasol i ac yn effeithio ar waith pobl eraill
6. y gwahanol rolau ynghlwm â'r cynyrchiadau rydych chi'n gweithio arnyn nhw, a phwy ddylech chi gyfathrebu gyda nhw ynghylch agweddau o'ch gwaith
7. pwy sy'n gwneud penderfyniadau golygyddol a sut i gynnal perthnasau gyda nhw
8. sut i gyfathrebu'n effeithiol a chyflwyno'ch safbwyntiau
9. sut i barhau i fod yn llawn cymhelliant wedi ichi dderbyn adborth
10. sut i ddehongli safonau technegol y gellir eu cyflawni sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r cyfarwyddyd
11. sut i ddatrys problemau a mynd i'r afael â gwrthdaro wrth ichi olygu cynnwys
12. sut i gydymffurfio gyda deddfau a rheoliadau sy'n berthnasol i gynnwys a chanllawiau golygyddol

Cynnal prosiectau golygu yn unol â chyfarwyddyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSE1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt a Galwedigaethau Technegol, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt ym maes Dylunio, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt y Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Golygu |
| **Geiriau Allweddol** | cyflawni; golygu; prosiectau; cyfarwyddyd; rôl; cynhyrchiad; adrannau; technegol; gofynion |